| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 23 Mai 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024 |
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 / Pennaeth Democratiaeth |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Derbyn penderfyniadau'r Panel a chadarnhau nifer taliadau uwch gyflogau o 2023-2024 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif Gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Panel ar 27 Chwefror 2023 a daeth yn weithredol o 1 Ebrill 2023.  Mae'r adroddiad wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth baratoi cyllideb 2023/24 ac mae cyllid digonol wedi'i neilltuo er mwyn ariannu'r taliadau aelodau.

Mae'r prif newidiadau sy'n bethnasol i'r Cyngor wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2023/24

### 2.2 Cyflog Sylfaenol

Mae'r Panel wedi penderfynu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Mae hyn yn gynnydd o 4.76%.

### 2.2 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Mae’r cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy’n daladwy (“y cap”) yn aros yn ei le yn 2023-2024, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Mae pob uwch gyflog a chyflog dinesig yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol rhwng pob rôl yn cael ei gydnabod mewn fframwaith bandiau. Does dim newidiadau i’r bandiau yn 2023-2024.

### 2.3 Lefelau Taliadau 2023/24

Mae’r tabl canlynol yn rhestru’r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig yn ystod blwyddyn ddinesig 2022-2023, yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 24 Mai 2022. Mae’r tabl hefyd yn cymharu cyflogau 2022-23 â’r cyflogau newydd sydd yn daladwy ers 1 Ebrill 2023:

| **Rhestr Taliadau i Aelodau** | **2022-2023** | **2023-2024** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i’r holl aelodau, sydd wedi’i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £16,800 | **£17,600** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £53,550 | **£56,100** |
| Dirprwy Arweinydd | £37,485 | **£39,270** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau’r Pwyllgor Gwaith (x 7) | £32,130 | **£33,660** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Cyngor | £25,593 | **£26,400** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £25,593 | **£26,400** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £20,540 | **£21,340** |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig. Mae pob penderfyniad arall o 2022-2023 felly yn dal i sefyll yn 2023-2024, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- Teithio a chynhaliaeth
- Gofal a chymorth personol
- Absenoldeb salwch
- Cyd-bwyllgorau corfforaethol
- Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- Aelodau cyfetholedig

## 3.0 Cydymffurfio â gofynion y Panel

Bydd Rhestr Flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau’r Cyngor yn cael ei newid i adlewyrchu penderfyniadau’r Panel ar gyfer 2023-2024. Bydd y Rhestr yn cael ei chyhoeddi a’i hanfon at y Panel cyn gynted ag y bo’n ymarferol wedi hynny a dim hwyrach na 31 Gorffennaf 2023.

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i’r Cyngor:

4.1 dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023-2024

4.2 gadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2022-2023 â’r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2023-2024:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

4.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu’r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023 i 2024 (Chwefror 2023):

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU]


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.